



MYND O GWMPAS PRIFYSGOL BANGOR

Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn eich helpu i fynd o gwmpas yr adeiladau academiaidd ym Mhrifysgol Bangor. Ynddi, cewch wybod lle i barcio, a oes lifftiau, ac am y mannau llochesu diogel y mae angen ichi fynd iddynt mewn argyfwng. Gan fod rhannau o Fangor yn serth, e.e. Parc y Coleg, efallai y byddai'n syniad da ichi ymgylfarwyddo â'r ardal cyn cychwyn gweithio / astudio yn y Brifysgol. Mae 'Cyf Map' yn cyfeirio at Fap y Lleoliad:

<http://www.bangor.ac.uk/tour/LocationMap.pdf>. Mae gwybodaeth bellach am y Campws ar gael yn: <https://www.bangor.ac.uk/mapcampws>





Os oes gennych gwestiynau penodol ynglŷn â chyfleusterau yn y Neuaddau Preswyl, cysylltwch â'r Swyddfa Neuaddau: **Ffôn:** +44 (0) 1248 383944 | **E-bost:** halls@bangor.ac.uk.



- Safle Ffordd y Coleg – Tud. 2
- Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Ganolfan Addysg Ryngwladol - Tud. 12
- Pontio: Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi ac Undeb Myfyrwyr - Tud. 14
- Llyfrgell Deiniol / Gofod Dysgu Cymdeithasol – Tud. 16
- Safle'r Gwyddorau – Tud. 17
- Safle Stryd y Deon – Tud. 20
- Fron Heulog – Tud. 21
- Reichel - Tud. 22
- Adeiladau Safle Ffriddoedd – (ac eithrio Neuaddau Preswyl) – Tud. 23
- Canolfan Brailsford (Maes Glas gynt) - Tud. 24
- Gwyddorau Eigion – Tud. 25
- Safle'r Normal – Tud. 27
- Treborth – Tud. 34
- M-SParc – Tud. 35







**Ffoniwch Prif Swyddfa Ddiogelwch ar
01248 382795 os cewch anawsterau tra byddwch yn y Brifysgol.**




MYND O GWMPAS SAFLE Ffordd Y Coleg





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Llochesu
52	Penbre <u>ADEILAD AR GAU</u>	Mynediad o Ffordd y Coleg	Gellwch parcio ar y dreif o flaen yr adeilad	Esgynfa (dim rheiliau llaw), dim drws â motor SYLWCH: Mae'r dreif yn serth 	N/A	Toiled ar y llawr gwaelod — dim mynediad i gerbydau olwyn	Nac oes	N/A
53	Bryn Afon <u>ADEILAD AR GAU</u>	Mynediad trwy faes parcio Bryn Afon, oddi ar Ffordd y Coleg (rhwystr maes parcio a agorir gan gerdyn llithro)	Bae bathodynau glas yn union o flaen yr adeilad	Esgynfa fach (dim rheiliau llaw), dim drws â motor SYLWCH: Mae maes parcio Bryn Afon yn Serth 	N/A	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A



Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Llochesu
55	Hen Goleg	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg a Ffordd Sili-wen	<p>Ceir maes parcio o boptu'r adeilad â lleoedd ar gyfer bathodynau glas</p> <p>Ochr Ffordd y Coleg yw'r ochr orau i barcio (gyferbyn â Phrif Adeilad y Celfyddydau), am fod mynediad yn wastad i'r adeilad yn haws</p> 	<p>Mae'r llwybrau ar y ddwy ochr yn serth. Mae mynedfa Ffordd Sili-wen â grisiau</p>  <p>Mae ochr Ffordd y Coleg ar le gwastad ac mae ganddo ddrysau trydan. Mae'r fynedfa hefyd agosaf at y lift</p>  <p>Mae mynedfa lai yng nghanol yr adeilad ar ochr Ffordd y Coleg, ond nid oes motor ar y drysau</p>	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygrych ar y llawr gwaelod	Oes (ar ochr Ffordd y Coleg)	<p>Oes, yn lobi'r lifft, ac wrth y grisiau ochr draw'r adeilad</p> <p>SYLWCH: Hefyd ar lawr gwaelod wrth y grisiau ar ochr yr adeilad sy'n gyferbyn â'r lift</p> 




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Llochesu
50	Brigantia	Mynediad o Ffordd Penrallt	Ceir lleoedd parcio i fathodynau glas yn union o flaen y fynedfa ar Ffordd Penrallt	Mae'r brif fynedfa ar lefel, gyda drysau â motor 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygrych ar bob llawr	Oes, ceir dau lifft	Oes, yn lobi'r lifft (ochr Parc y Coleg) ac yng nghoridor 393, yn ymyl Darlithfa 342 
50	39 – 41 Ffordd y Coleg	Mynediad o Ffordd Penrallt	Fel Brigantia	Mynediad trwy Brigantia Cymerwch y lifft i'r llawr cyntaf a'r coridor cysylltu i Ffordd y Coleg. Ceir esgynfa (gyda rheiliau llaw) i mewn i 39-41. Darllynydd cerdyn SALTO uchel	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygrych ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A
50	43 Ffordd y Coleg	Mynediad o Ffordd Penrallt	Fel Brigantia	Mynediad fel yn 39 – 41 Ffordd y Coleg. Fodd bynnag, nid oes esgynfa, am fod y fynedfa ar lefel. Mae'r drws yn un gwthio/ tynnu traddodiadol	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn	Nac oes	N/A




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Llochesu
51	Llyfrgell (Cyfadeiladau Prif Adeilad y Celfyddydau)	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg (rhwystr maes parcio a agorir gan gerdyn llithro)	Mae parcio ar gyfer bathodynau glas ar gael yn union o flaen yr adeilad ym Maes Parcio'r Cwad (wrth ochr maes parcio Prif Adeilad y Celfyddydau)	Mae'r brif fynedfa o faes parcio'r Cwad. Mae'r fynedfa ag esgynfa (â rheiliau llaw) a drysau â motor  SYLWCH: Cysylltwch â'r Llyfrgell i drefnu mynediad i Ddarllenfa Lloyd a Llyfrgell y Gyfraith	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod isaf.	Oes	Oes, ger y lifft (nid y llawr gwaelod) a ger yr Allanfâ Dân yn y Man Dysgu Cymdeithasol 
51	Prif Adeilad y Celfyddydau	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg (rhwystr maes parcio a agorir gan gerdyn llithro)	Parciwch yn y mannau i fathodynau glas o flaen Prif Adeilad y Celfyddydau os ydych yn mynd i Neuadd Powis neu Neuadd PJ Parciwch yn y mannau i fathodynau glas ger y Llyfrgell (gweler y Llyfrgell) sydd agosaf at y fynedfa ger lifft PA y Celfyddydau os ydych yn mynd i fannau eraill o fewn yr adeilad	Mae'r fynedfa ag esgynfa (â rheiliau llaw) a drysau â moto  Mae mynedfa'r Cwad (agosaf at lifft Prif Adeilad y Celfyddydau) ar lefel, â drysau â motor. Hefyd mae mynedfeydd o'r Teras ar lefel (mae drysau'r fynedfa â motor)	Drysau tynnu/gwthio SYLWCH: Delir y rhan fwyaf o'r drysau'n agored gan y system dân	Toiled hygyrch ger Ystafelloedd Cynhadledd y Teras (islawr) Toiled hygyrch ger Neuadd PJ (ochr Neuadd Powis) SYLWCH: Bydd angen ichi ddod i mewn trwy gyntedd Prif Adeilad y Celfyddydau (gweler y llun ar y chwith)	Oes - ond mae angen ichi fynd at y lifft ger mynedfa'r Cwad (gweler y Llyfrgell ynglŷn â pharcio)  	Oes, ger y ddwy res o risiau (ochr Parc y Coleg i'r adeilad) 





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Llochesu
51	P.A. y Celfyddydau (parhad)			Mynedfa'r Cwad  SYLWCH: O Neuadd Powis y mae'r fynedfa i Ystafelloedd Cerddoriaeth II. G1, G8 a G9, a gall hynny fod yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn				
51	Adeilad Newydd y Celfyddydau	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg (rhwystr maes parcio a agorir gan gerdyn llithro)	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad 	Esgynfa (â rheiliau llaw). Mae motor ar ddrws y fynedfa	Drysau gwrthio/ tynnu, ond cedwir y rhan fwyaf o'r drysau'n agored	Toiled hygyrch ar y llawr cyntaf	Oes	Oes, ger lobi'r lifft ac wrth risiau'r cefn 

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
65	Cerddoriaeth	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg (rhwystr maes parcio a agorir gan gerdyn llithro)	Mae parcio bathodyn glas ym maes parcio Prif Adeilad y Celfyddydau	<p>Mae'r brif fynedfa ar ochr yr adeilad</p> <p>Mae ramp yno a drysau sy'n agor wrth bwyso botwm</p> 	Drysau tynnu/gwthio. Mae gan ran fwyaf o ddrysau coridor declynnau i'w cadw'n agored	<p>Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod</p> <p>SYLWCH: Ceir cawod hygyrch ar y llawr gwaelod</p>	Oes	<p>Oes, ger y lifft ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf</p> <p>Hefyd mae yna un wrth ymyl y drws allanol ochr Ffordd y Coleg</p> 
67	Gae Derwen <u>ADEILAD AR GAU</u>	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	<p>Mae lleoedd parcio ar gael yn union o flaen yr adeilad</p> <p>SYLWCH: Daw'r maes parcio hwn yn brysur iawn</p> 	<p>Esgynfa (dim rheilen law). Mae'r drysau mynediad wedi'u pweru</p> 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
68	Lloyd	<p>Mae'r mynediad gorau i gerbydau trwy'r fynedfa i Gae Derwen (oddi ar Ffordd y Coleg). Ewch heibio'r tro i Gae Derwen a dilynwch y dreif o gwmpas i'r dde, hyd nes eich bod y tu cefn i Adeilad Lloyd</p> 	<p>Ceir lleoedd ar gyfer bathodynau glas y tu cefn i'r adeilad. Yna, gellwch ddefnyddio'r fynedfa â'r esgynfa</p>	<p>Ceir esgynfa fach wrth y Brif Fynedfa (ochr P.A. y Celfyddydau) heb reiliau llaw ac mae'n cael ei bweru</p>  <p>Mae gan y fynedfa ochr ramp (gyda chanllawiau) ond nid yw'n cael ei bweru. Mae gan y ddau SALTO</p> <p>SYLWCH: Mae mynediad i gerddwyr trwy Ffordd Penrallt , ar draws Teras PA y Celfyddydau, neu drwy lifft PA y Celfyddydau i'r Llawr Gwaelod Isaf ar bwys y Siop Goffi, ac ar draws y Teras</p>	<p>Drysau tynnu/gwthio. Mae padiau allweddol / SALTO ar rai drysau</p>	<p>Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod (trwy'r drws ar y chwith wrth ichi fynd trwy'r fynedfa)</p>	<p>Nac oes</p>	<p>N/A</p>





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
57	Aethwy	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg 	Parcio wrth ochr yr adeilad	Dau ris isel. Nid oes motor ar y fynedfa  SYLWCH: Mae'r dreif yn serth	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod (dim mynediad i gadeiriau olwyn)	Nac oes	N/A
58	Athrollys	Mynediad i gerbydau trwy fynedfa Aethwy	Parcio answyddogol wrth ochr yr adeilad (yr un lle ag Aethwy)	Grisiau at y fynedfa Nid oes motor ar y fynedfa 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr cyntaf (dim mynediad i gadeiriau olwyn)	Nac oes	N/A

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
60	Canolfan Rheoli Busnes (Hugh Owen)	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	Dau faes parcio, un o flaen y ganolfan, sydd â lleoedd i fathodynau glas, a maes parcio a gyrchir trwy ddreif Neuadd JP	Ar yr un lefel â'r brif fynedfa, gyda drysau â motor. SYLWCH: Ceir grisïau os ydych yn dod o faes parcio Neuadd JP 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod a'r llawr gwaelod isaf	Oes	Ceir system ar ben y grisïau, ond â'r Panel Larwm Tân y mae hon yn cysylltu, nid â Diogelwch 
64	Neuadd Dyfrdwy	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Drysau tynnu/gwthio	Ceir toiled hygyrch ar yr hyn a elwir yn llawr gwaelod (mewn gwirionedd, y llawr cyntaf, oherwydd cynllun y lloeriau) a'r trydydd llawr	Oes, a lifft platfform i'r Llawr Canol 	Ar gael ar ben y grisïau (nid ar y Llawr Canol na'r Llawr Gwaelod). SYLWCH: Mae'n cysylltu â'r Panel Tân, nid Diogelwch (gweler llun uchod)
59	Neuadd Alun	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Edrychwch ar y Ganolfan Rheoli Busnes	Drysau tynnu/gwthio	Ceir toiled hygyrch ar yr hyn a elwir yn llawr gwaelod (mewn gwirionedd, y llawr cyntaf, oherwydd cynllun y lloeriau) a'r trydydd llawr	Oes, a lifft platfform i'r Llawr Canol (fel uchod)	Fel uchod





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
61	Eryri	Gweler uchod						Fel uchod ond ar lawr 1 a 2 yn unig
62	Môn	Gweler uchod						Fel uchod ond ar lawr 1 a 2 yn unig
63	Neuadd John Phillips (JP)	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	<p>Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad</p>  <p>SYLWCH: Nid yw'r baeau ar lefel, fel ei bod yn anodd i'r rheiny sydd â lifftiau cadair i gerbydau</p>	<p>Mae'r fynedfa ar lefel a'r drysau â motor</p> <p>SYLWCH: Mae'r llwybr at yr adeilad yn serth</p> 	Drysau gwthio/tynnu, ond cedwir y rhan fwyaf o'r drysau'n agored	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	<p>Oes (ond siaradwch â'r staff ynglyn â chael agoriad a sut i'w ddefnyddio)</p> <p>SYLWCH: Nid yw'r lifft yn mynd ond i'r llawr cyntaf, ac nid i'r llawr gwaelod isaf lle mae nifer o ystafelloedd cyfryngau wedi'u lleoli</p>	<p>Oes, ger y lifft ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf</p> 
56	Canolfan yr Hen Gyfryngau <u>Yn wag ar hyn o bryd</u>	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	<p>Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn union o flaen yr adeilad</p> <p>SYLWCH: Mae hwn ar allt</p>	<p>Ceir lifft platfform yn union wrth ymyl y grisiau at yr adeilad</p> 	Drysau tynnu/gwthio	Mae cyfleusterau hygyrch ar gael	<p>Ceir lifft platfform y tu allan i'r adeilad</p> <p>SYLWCH: Ffoniwch 01248 382085 ymlaen llaw i sicrhau ei fod ar gael</p>	N/A



MYND O GWMPAS GWASANAETHAU MYFYRWYR A'R GANOLFAN ADDYSG RYNGWLADOL

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
70	Canolfan Addysg Ryngwladol: (Rathbone - rhan fodern)	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn union o flaen yr adeilad	<p>Mae'r fynedfa ar lethr serth. Ceir motor ar ddrws y fynedfa</p> <p>SYLWCH: O Ffordd y Coleg ac yna heibio Gartherwen y mae'r llwybr mwyaf gwastad i gerddwyr</p> 	Drysau tynnu/ gwthio	Toiledau hygrych ar bob llawr	Oes - llawr isaf i'r llawr 1af	<p>Oes – llawr gwaelod i'r llawr 1af ar y grisiau ar ochr yr adeilad sydd gyferbyn â'r lifft</p> 
70	Gwasanaethau Myfyrwyr, yn cynnwys y Ganolfan Asesu (Rathbone a'r Anecs - rhan y brics coch)	Mynediad i gerbydau o Ffordd y Coleg	<p>Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn union o flaen yr adeilad neu y tu ôl os ydych yn ymweld o Anecs Rathbone</p> 	<p>Mae llethr serth ar y llwybr i gerddwyr o Ffordd y Coleg i'r brif fynedfa. Mae motor ar y drws i'r fynedfa a'r drws cefn os ydych yn ymweld â'r Anecs</p> <p>SYLWCH: O Ffordd y Coleg a heibio Gartherwen y mae'r llwybr mwyaf gwastad i gerddwyr</p> <p>Neu, os byddwch yn dod o Brif Adeilad y Celfyddydau trwy'r Teras, heibio adeilad Lloyd i gefn Rathbone</p>	Drysau tynnu/ gwthio	<p>Toiled hygrych ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf ac yn yr Anecs.</p> <p>Cyfleusterau ymolchi hygrych hefyd ar gael yn yr Anecs</p>	<p>Oes – o'r llawr gwaelod i'r ail lawr</p> <p>Lifft platfform os ydych yn mynd o lawr gwaelod prif adeilad Rathbone i'r Anecs</p>	<p>Oes – llawr gwaelod i'r ail lawr ar y grifiau ar ochr yr adeilad sy'n gyferbyn â'r lifft</p> 




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
70	Gwasanaethau Anabledd (yn cynnwys y Tîm Dyslecsia, Cyngorwyr Anabledd ac Iechyd meddwl a'r Cynllun Gweithwyr Cynnal) (Llawr Gwaelod Isaf Rathbone)	Mae'r mynediad gorau i gerbydau o Lôn Cariadon	Mae lleoedd parcio ar gael yn union o flaen y brif fynedfa ar ochr Lôn Cariadon i'r adeilad  	Mynediad 1 (Ffordd y Coleg) gyda lifft: Mae'r fynedfa ar lethr serth. Ewch i mewn trwy'r drysau gwydr awtomatig (ar ochr chwith bellaf Neuadd Rathbone). Ewch ar hyd y coridor i'r lifft. Pwyswch '-1' ar gyfer Gwasanaethau Anabledd. Ewch ar hyd y coridor i'r dderbynfa Mynedfa 2 (Lôn Cariadon) fyny'r grisiau: Fel uchod, ewch i ochr chwith bellaf Rathbone  Ewch lawr y grisiau i lawr / o gwmpas yr adeilad. Ar y gwaelod mae mwy o risiau / esgynfa sy'n arwain at brif fynedfa'r Gwasanaethau Anabledd Ffordd arall i Fynedfa 2 (o Ffordd y Coleg a Lôn Cariadon): Ewch heibio'r giatau sy'n agos at ben uchaf Lôn Cariadon. Ewch ar hyd y llwybr tuag at fynedfa 2	Drysau tynnu/ gwthio	Mae toiled hygyrch wrth y brif fynedfa	Oes - llawr isaf i'r llawr 1af	Oes – llawr gwaelod i'r llawr 1af ar y grisiau ar ochr yr adeilad sydd gyferbyn â'r lifft 
	SYLWCH: Bydd pob llwybr i gerddwyr yn serth Os byddwch yn teimlo eich bod yn cael anawsterau yn dod o hyd i, neu gyrraedd at y Gwasanaethau Anabledd, ffoniwch ni ar 01248 382032 / 01248 383620							

MYND O AMGYLCH BANGOR: CANOLFAN Y CELFYDDYDAU AC ARLOESI A'R UNDEB MYFYRWYR







Cyf Map	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
48	<p>Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio</p>  <p>Wedi'i leoli ar Ffordd Deiniol. Mae man gollwng ar gael o flaen yr adeilad os byddwch yn dod gyda char. Am gyfleusterau parcio hygyrch, ewch tuag at All Glanrafon. Mae'r troad ger y croesfan i gerddwyr sydd wrth y Porth Coffa (gweler luniau isod)</p>  <p>Cyfleusterau parcio hygyrch ger Thoday</p> 	<p>Pen Ffordd Deiniol (Llawr Gwaelod): Mae cyfleusterau parcio hygyrch ar gael yn ymyl Pontio neu mae sawl bae parcio ar gael ym maes parcio Thoday sydd union gyferbyn (gweler y golofn flaenorol)</p> <p>Pen Undeb y Myfyrwyr (Llawr 5): Mae man gollwng /codi ar gael ar Ffordd Penrallt</p>	<p>Pen Ffordd Deiniol (Llawr Gwaelod): Dwy fynedfa sydd ar lefel ond mae'r llwybr iddynt ar lethr. Mae gan y brif fynedfa (ochr Ffordd Deiniol) ddrysau sy'n llithro. Mae gan y fynedfa ochr ddrysau troi a drws ochr sydd â motor</p> <p>Pen Undeb y Myfyrwyr (Llawr 5): Mae gan un fynedfa ddrysau troi a drws ochr sydd â motor</p> <p>SYLWCH: Mae'r llwybr i gerddwyr sy'n arwain at y fynedfa hon yn serth</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o lefydd â chynllun agored</p> <p>Mae'r gwaith yn parhau i fynd i'r afael â drysau tynnu / gwthio</p>	<p>Ceir toiledau hygyrch ar y llawr gwaelod, 1af, 2il, 4ydd a 5ed</p> <p>Man Newid ar gael ar yr ail lawr</p>	<p>Oes dau brif lifft a lifft eilaidd llai</p> <p>SYLWCH: Nid yw'r prif lifft yn stopio ar lawr 4, lle mae'r Undeb Myfyrwyr (UM)</p> <p>I ymweld â'r UM o'r llawr gwaelod cymerwch y lifft i lawr 3 ac yna newidiwch i'r ail lifft i fynd at lawr 4. Neu cymerwch y brif lifft i lawr 5 ac yna newidiwch i'r ail lifft i fynd lawr at lawr 4</p> <p>I ymweld â'r UM o lawr 5 cymerwch y lifft lawr un llawr i'r 4ydd</p>	<p>Oes. Edrych fel y llun isod</p> <p>Gofynnwch yn nerbynfa Pontio am wybodaeth am y man lloches agosaf i'r lle y byddwch chi'n ymweld</p> 


Cyf Map	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifft	Mannau Loches
48	 <p>Mae Undeb y Myfyrwyr ar lawr 4 Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi Pontio</p> <p>Gweler uchod</p>	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	<p>Gofynnwch i staff UM am gyngor am y man lloches agosaf i'r lle y byddwch chi'n ymweld</p> <p>Mae holl fannau lloches Pontio yn edrych fel yn</p> 








MYND O GWMPAS LLYFRGELL DEINIOL / GOFOD DYSGU CYMDEITHASOL

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
47	Llyfrgell Deiniol	<p>Ceir dwy fynedfa i gerbydau o Ffordd Sackville</p> <p>SYLWCH: Mae'r naill fynedfa â rhwystr a'r llall heb rwystr.</p>	<p>Mae'r ddau faes parcio â lle parcio bathodyn glas</p> <p>Mae'r lle parcio heb rwystr wrth ochr yr adeilad</p>  <p>Mae'r llefydd parcio gyda rhwystr yn edrych fel yr uchod ar waelod y ramp</p>	<p>Ceir esgynfa (gyda rheilen law) o'r maes parcio sydd â rhwystr</p> <p>Mae prif fynedfa o Ffordd deiniol ar lefel. Ceir motor ar ddrysau'r fynedfa i'r adeilad</p> 	Mae'r adeilad yn bennaf â chynllun agored	Toiled hygrych ar y llawr gwaelod (mae angen defnyddio'r lifft neu' esgynfa, am ei fod i lawr ychydig risiau)	Oes	<p>Oes, ym mhob twll grisiau ar ochr Ffordd Deiniol o'r adeilad (nid oes dim ar ochr y swyddfeydd staff yn yr adeilad)</p> 





MYND O GWMPAS SAFLE'R GWYDDORAU

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
44	Wheldon	Mynediad i gerbydau o Ffordd Deiniol, trwy faes parcio Thoday (rhwystr a godir â cherdyn llithro)	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad (a gyrchir trwy faes parcio Thoday) 	Esgynfa (â rheiliau llaw) mae drysau'r fynedfa â motor 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygrych ar y llawr gwaelod	Oes	Oes, yn lobi'r grisau a ger yr allanfa argyfwng ym Mhrif Ddarlithfa'r Llawr Cyntaf 
46	Thoday	Mae prif fynediad i gerbydau o Ffordd Deiniol, (rhwystr mynediad a godir â cherdyn llithro) Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael ar ochr Pontio o'r adeilad	Mae nifer o lefydd ar gael yn y maes parcio ar ochr Pontio o'r adeilad 	Esgynfa (â rheiliau llaw) wrth fae'r bathodynau glas. Mae motor ar y fynedfa SYLWCH: Mae grisau ar y ddwy fynedfa i gerddwyr yn union oddi ar Ffordd Deiniol. Mae grisau i'r brif fynedfa â rheiliau llaw 	Drysau tynnu/gwthio SYLWCH: Ceir grisau i G23, darlithfa'r llawr gwaelod	Toiled hygrych ar y llawr gwaelod	Oes	Oes, yn lobi'r ddwy res o risiau 




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
42	Adeilad Coffa	Mynediad i gerbydau o Ffordd Deiniol, ond mae'n well mynd i Thoday (darllenwch uchod)	Ceir man parcio bach ryth ochr yr adeilad. Ceir parcio i fathodynau glas ym maes parcio Thoday neu y tu cefn i'r Adeilad Coffa, a gyrchir trwy faes parcio Thoday	<p>Mae'r holl fynedfeydd â grisiau. Nid oes motor ar y drysau, sydd o fath tynnu/ gwthio</p> 	<p>Drysau tynnu/ gwthio</p> <p>SYLWCH: Ceir grisiau i'r Ddarlithfa</p>	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn	Nac oes	N/A

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
38	Brambell	Mynediad i gerbydau o Ffordd Deiniol	Mae parcio bathodyn glas ar gael yn y maes parcio y tu cefn i'r adeilad	<p>Mae'r brif fynedfa ag esgynfa (â rheiliau llaw). Fodd bynnag, nid oes motor ar y fynedfa hon, a cheir grisiau at y lifft</p> <p>Trwy'r drws ochr y mae'r fynedfa orau, ac yno esgynfa (â rheiliau llaw) a drws mynediad â motor (angen cerdyn llithro)</p> 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	<p>Oes, a lifft platfform</p>  <p>SYLWCH: Bydd angen ichi ddefnyddio'r fynedfa ochr a'r lifft platfform i gyrraedd yr un lefel â'r prif lifft</p>	<p>Oes, ar y ddwy res o risiau, wrth ben y grisiau</p> 
39	Canolfan Amgylchedd Cymru	Mynediad i gerbydau o Ffordd Deiniol trwy faes parcio Thoday car park (â rhwystr) neu faes parcio Brambell	<p>Ceir parcio i fathodynau glas ym maes parcio Brambell neu o flaen Adelad Alun Roberts</p> <p>SYLWCH: Mae Brambell yn haws, am fod y llwybr at Ganolfan yr Amgylchedd wedi'i bedestrianieiddio.</p> 	<p>Mae'r fynedfa ar lefel wastad a'r drysau â motor</p>  <p>SYLWCH: Gellwch fynd i mewn trwy'r bae llwytho, a gyrchir trwy faes parcio Brambell</p>	Drysau tynnu/gwthio	<p>Toiled hygyrch ar bob llawr</p> <p>SYLWCH: Ceir cawod hygyrch ar y llawr gwaelod ger y lifft gwasanaeth</p>	<p>Oes, ceir dau, y brif un ger y dderbynfa a lifft gwasanaeth ochr arall yr adeilad</p> 	<p>Oes - ger y lifft gwasanaeth a geir ar ochr yr adeilad sydd gyferbyn â'r dderbynfa a'r brif lift</p> 




MYND O GWMPAS SAFLE STRYD Y DEON

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
74	Ysgol Peirianeg Electronig a Chyfrifiadureg SYLWCH: Os ydych yn parcio ac yn mynd at yr adeilad wrth y cefn, cysylltwch â'r Swyddfa Gyffredinol, est 2620, er mwyn rhaglennu eich cerdyn agosrwydd	Mynediad i Gerbydau o Stryd y Deon (mae gan y fynedfa hon rwystr a agorir â cherdyn llithro)	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael tu cefn i'r adeilad 	Ceir mynediad gwestad y tu cefn i'r adeilad, trwy'r maes parcio â rhwystr (cerdyn llithro) Mae'r drysau mynediad wedi'u pweru. NEU  Ewch i mewn trwy fynedfa Stryd y Deon (drws nesaf), cymerwch y lifft i'r llawr cyntaf, yna defnyddiwch y dramwyfa gysylltiol	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar yr ail lawr	Oes	Oes, ar ben y grisiau ar y llawr 1af, 2il a 3ydd Mae'r Man Lloches ar yr Is-lawr wrth yr Allanfa Dân ar ochr arall ystafell gyffredin y myfyrwyr (gellir mynd iddo gyda'r lifft platfform) 
73	Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Mynediad i Gerbydau o Stryd y Deon	Cair parcio i fathodynau glas o flaen yr Ysgol Peirianeg/ Cyfrifiadureg, sef yr adeilad nesaf i lawr ar Stryd y Deon 	Mae mynediad bron ar lefel wastad o'r pafin. Ceir motor ar ddrws y fynedfa SYLWCH: Ceir rhodfa gysylltiol o'r llawr cyntaf hyd at yr Ysgol Peirianeg Electronig a Chyfrifiadureg	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Oes	Oes – ar y llawr gyntaf a'r ail lawr. Llawr 1af: Ym mhen draw'r coridor o'r lifft 2il llawr: Ar hyd coridor 278, trwy Ystafell 206 a ger yr allanfa dân ar ochr bellaf 206 Gweler uchod





MYND O GWMPAS FRON HEULOG

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
37	Fron Heulog	Mynediad i gerbydau o Ffordd Ffriddoedd	Ceir un bae i fathodynau glas ger y lle biniau â ffens	<p>Ceir esgynfa (gyda rheilen law) o'r maes parcio. Mae'r fynedfa i'r adeilad yn wastad. Mae'r drysau wedi'u pweru</p>  <p>SYLWCH: Ceir mynedfa arall i gerddwyr ar ochr Ffordd Caergybi i'r adeilad</p>	Drysau tynnu/gwthio. Mae rhai â phadiau allweddi wedi'u lleoli'n uchel	Toiledau hygrych ar bob llawr	Oes	<p>Ceir ffonau argyfwng coch wrth ben y grisiau ar ochr Ffordd Ffriddoedd i'r adeilad sydd, pan godir hwy, yn arwain at y Swyddfa Ddiogelwch</p>  <p>Mae Man Lloches i'w gael wrth ymyl y lifft ar bob llawr, yn cynnwys y Llawr Gwaelod a'r Is-lawr</p> 






MYND O GWMPAS REICHEL

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
17	Neuadd Reichel (man Cynadleddau'n unig)	Mynediad i gerbydau o Ffordd Ffriddoedd	<p>Ceir nifer o faeau i fathodynau glas yn union o flaen yr adeilad</p> 	<p>Mynediad trwy esgynfa heb reiliau llaw. Mae gan y drws SALTO sydd weithiau'n cael ei ddefnyddio. Mae drysau'n cael eu pweru</p>  	Drysau tynnu/gwthio. Mae gan rai SALTO	Cyfleusterau hygrych ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A





MYND O ADEILAD FRIDDOEDD (hefyd safle Bar Uno)





Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
33	Hyb Undeb y Myfyrwyr / Maes Gweithgareddau	Mynediad i gerbydau o Rodfa Fictoria (oddi ar Ffordd Ffriddoedd) SYLWCH: Mae pen arall Rhodfa Fictoria yn cwrdd â Ffordd Caergybi. Rhodfa Menai a elwir pen hwn	Ceir bae i fathodynau glas ym mhen draw'r llwybr byr, gwastad 	Mae'r fynedfa ar lefel wastad. Mae drysau mynediad yn cael eu pweru 	Drysau tynnu/gwthio. Mae rhai â phadiau allweddi wedi'u lleoli'n uchel	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Oes – lifft platform i lefel Bar Uno	N/A
33	Bar Uno (llawr isaf)	Nid oes mynediad uniongyrchol i gerbydau	Mae parcio i fathodynau glas ar gael ym maes parcio'r Neuaddau Preswyl	Mae'r llwybr i Far Uno yn mynd o flaen Neuaddau Gwynant (mae'r llwybr hwn yn eithaf serth). Ceir motor ar ddrysau'r fynedfa 	N/A	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod (gofynnwch i staff y Bar am agoriad)	N/A	N/A
35	Swyddfa Neuaddau (Idwal)	Cymerwch y tro o Ffordd Ffriddoedd at y Neuaddau	Nid oes parcio ar gael yn union y tu allan, ond ceir lleoedd ym meysydd parcio'r Neuaddau	Mynedfa wastad â drysau â motor 	N/A	N/A	N/A	N/A

MYND O GWMPAS CANOLFAN CHWARAEON BRAILSFORD




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
18	Canolfan Brailsford (Maes Glas gynt)	Mynediad i gerbydau o Ffordd Ffriddoedd	Ceir nifer o faeau i fathodynau glas yn union o flaen y fynedfa SYLWCH: Bydd y maes parcio'n mynd yn brysur	Mae'r fynedfa ar lefel wastad. Mae drysau'r fynedfa'n ddrysau llithro sy'n agor ohonynt eu hunain 	Drysau tynnu/gwthio	Mae toiled a chawod hygrych ar gael ar y llawr gwaelod	<p>Mae yna brif lifft i'r llawr cyntaf</p>  <p>Yn ogystal mae yna lifftiau platfform i'r Dôm a'r Gampfa Berfformio (gofynnwch i staff os hoffech ddefnyddio'r rhain).</p> <p>Lifftiau platfform i'r Dôm</p>  <p>Lifftiau platfform i'r Gampfa Berfformio</p> 	<p>SYLWCH: Lifft platfform i'r Gampfa Berfformio</p> <p>Oes, wrth y prif lifft ac ar ben y ddwy set o risiau (grisiau'r Brif Neuadd Chwaraeon a'r Neuadd Chwaraeon Newydd)</p> 



MYND O GWMPAS SAFLE GWYDDORAU EIGION



Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
D	Labordai Nuffield	Mynediad o Ffordd y Paced. Trowch i'r chwith wrth y Liverpool Arms, ac yna eto i'r chwith i Ffordd Cynan	Ceir parcio answyddogol ar y pafin o flaen yr adeilad	Ar lefel wastad â drysau â phad allweddi 	Drysau tynnu/gwthio	Heb fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn	Nac oes	N/A
B	SEACAMS 	Mynediad o Ffordd y Paced. Trowch i'r chwith wrth y Liverpool Arms, ac i'r chwith unwaith eto i Stryd Askew (stryd unffordd yw hon)	Mae lleoedd parcio ar gael yn union o flaen yr adeilad	Mae'r llwybr i'r fynedfa ar lethr bach Mae yna ddrws troi a drws ochr sydd â motor 	Mae'r adeilad yn bennaf â chynllun agored gyda rhau drysau tynnu/gwthio SYLWCH: Nid yw'r coridor cyswllt at Westbury Mount yn hygyrch. Ceir grisiau ar bob llawr cyswllt	Cyfleusterau hygyrch ar bob llawr		Oes (gweler y llun isod) - ar y grisiau ar ochr y lifft i'r adeilad. SYLWCH: Mae mannau lloches ychwanegol ar y gweill i'w cael eu gosod 



Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
C	CYAN (estyniad yw hwn ar Wesbury Mount, ac mae'n cysylltu â Westbury Mount)	Mynediad o Ffordd y Paced. Trowch i'r chwith wrth y Liverpool Arms, ac i'r chwith unwaith eto i Stryd Askew (stryd unffordd yw hon)	Ceir maes parcio bach ag un bae ar gyfer bathodyn glas	<p>Mae'r fynedfa ar lefel wastad a'r drysau â motor. Mae angen cerdyn llithro y tu allan i oriau</p>  <p>SYLWCH: Mae'r ffyrdd sy'n arwain at yr adeilad yn serth a heb balmentydd</p>	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ger y lifft ar yr ail lawr	Oes	<p>Ger y lifft</p> 
A	Craig Mair	<p>Mynediad o Ffordd Cynan (stryd unffordd) sydd oddi ar Ffordd Cadnant</p> <p>SYLWCH: Rhaid ichi adael y maes parcio o'r ochr gyferbyn trwy Stryd Askew (unffordd)</p>	Ceir maes parcio bach ag un bae ar gyfer bathodyn glas	<p>Yn union wrth ymyl y bae i'r anabl, ceir drws â motor sy'n arwain at y llawr gwaelod. Bydd angen cerdyn llithro arnoch ar gyfer y drws hwn</p>  <p>SYLWCH: Mae'r ffyrdd sy'n arwain at yr adeilad yn serth a heb balmentydd</p>	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod a'r ail lawr	Oes. Ceir dau. Un o'r maes parcio i'r llawr gwaelod, ac yna'r prif lifft ar draws y coridor i weddill yr adeilad	<p>Ceir ffonau argyfwng coch yn union wrth ymyl y prif lifft sy'n cysylltu â Diogelwch</p> 



MYND O GWMPAS SAFLE'R NORMAL






Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
13	Ardudwy	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad	<p>Mae'r fynedfa ar lefel wastad ac yno mae cyntedd. Ceir motor ar ddrws y fynedfa</p> 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A
12	Hiraethog 1	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Ceir parcio i fathodynau glas gerllaw ar y ffordd tu allan	<p>Defnyddiwyd yr esgynfa sy'n arwain at Hiraethog 2 (dim rheiliau llaw), ac yna'r llwybr o flaen yr adeilad. Mae'r fynedfa ag esgynfa fach (heb reiliau llaw). Ceir motor ar ddrws y fynedfa</p>   <p>SYLWCH: Mae'r llwybr o'r maes parcio yn weddol serth</p>	Drysau tynnu/gwthio	Toiledau hygyrch ar gael	Nac oes	N/A




Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
12	Hiraethog 2	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Ceir parcio i fathodynau glas ar y ffordd tu allan	<p>Esgynfa fach iawn (dim rheiliau llaw)</p>  <p>SYLWCH: Mae'r holl ddarlithfeydd ar y llawr cyntaf</p>	Drysau tynnu/gwthio	<p>Toiledau i ferched yn unig yn yr adeilad, nad ydynt yn hygyrch i gadeiriau olwyn</p> <p>SYLWCH: Mae coridor cyswllt i Hiraethog 1 sydd â chyfleusterau hygyrch</p>	Nac oes	N/A
11	Gofod Dysgu Cymdeithasol (Llyfrgell gynt)	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Ceir parcio i fathodynau glas gerllaw ar y ffordd tu allan	<p>Ceir lifft platform. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru</p>  <p>SYLWCH: Mae'r llwybr o'r maes parcio ar oledf</p>	Drysau tynnu/gwthio	Toiled hygyrch ar y llawr gwaelod	Nac oes	N/A

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
7	Nantlle	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn gyferbyn â'r adeilad	<p>Mae grisiau i'r fynedfa. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru</p>  <p>SYLWCH: Ceir mynediad i gadeiriau olwyn trwy fynd i'r Hen Lyfrgell (uchod) a defnyddio'r esgynfa gyswllt (dim rheiliau llaw)</p>	Drysau tynnu/gwthio	<p>Mae toiledau ar gael, ond heb fynediad i gadeiriau olwyn</p> <p>SYLWCH: Y Hen Lyfrgell drws nesaf sydd â'r cyfleusterau agosaf</p>	Nac oes	N/A
9	Cilgwyn	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae parcio i fathodynau glas ar gael yn gyferbyn, ger Eifionydd neu ger Adeilad y George, sydd drws nesaf	<p>Gellir mynd i'r ddarlithfa trwy'r brif fynedfa, sydd ar lefel. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru</p>  <p>Gellir mynd i'r gweithdy trwy esgynfa (dim rheiliau llaw) y tu cefn i'r adeilad</p>	Drysau tynnu/gwthio	<p>Toiledau ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gadeiriau olwyn</p> <p>SYLWCH: Yn y Gofod Dysgu Cymdeithasol y mae'r cyfleusterau agosaf</p>	Nac oes	N/A

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
10	Campfa a Neuadd Chwaraeon / Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer	Cyrchir o Ffordd Caergybi SYLWCH: Trowch i'r dde wrth adeilad Nantlle	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad	Mae'r fynedfa ag esgynfa. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru	Drysau tynnu/gwthio	Mae toiled a chawod hygrych ar gael SYLWCH: Mae angen defnyddio'r lifft platfform i fynd at y rhain	Ceir lifft platform Allan o Drefn	Mae ffôn argyfwng yn y cyntedd wrth ymyl y cyfleusterau hygrych
16	Dinas	Cyrchir o Ffordd Caergybi SYLWCH: Trowch i'r dde wrth adeilad Nantlle i fynd i Ddinas	Mae parcio ar gael yn yr hen gyrtiau tennis nesaf ar yr adeilad	Ceir esgynfa fach (dim rheiliau llaw). Mae'r drws mynediad wedi'i bweru 	N/A	Toiledau ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gadeiriau olwyn SYLWCH: Yn y Gofod Dysgu Cymdeithasol y mae'r cyfleusterau agosaf	Nac oes	N/A
6	Eifionydd	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn y lle nesaf at yr adeilad	Mae'r brif fynedfa ag esgynfa (heb reiliau llaw). Mae'r drws mynediad wedi'i bweru 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn SYLWCH: Yn y Gofod Dysgu Cymdeithasol y mae'r cyfleusterau agosaf	Nac oes	N/A

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
N/A	Stablau	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn y lle nesaf at yr adeilad	Mae'r holl adeiladau ag un llawr, ac un ris i mewn i bob uned. Nid oes motor ar ddrws y fynedfa	N/A	SYLWCH: Cyfleusterau Adeilad y George sydd agosaf	N/A	N/A
14	Y Wern	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael yn y lle nesaf at yr adeilad.	Ceir mynediad ar lefel wastad, trwy ban allweddi, yng nghefn yr adeilad 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn SYLWCH: Cyfleusterau Adeilad y George sydd agosaf	Nac oes	N/A
6	Rhos	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae lleoedd parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad	Ceir llwybr cerdded wrth ochr Eifionydd sy'n arwain at Rhos, ar oledf bach (dim rheiliau llaw). Mae'r drws mynediad wedi'i bweru 	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn SYLWCH: Yn y Gofod Dysgu Cymdeithasol y mae'r cyfleusterau agosaf	Nac oes	N/A



Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
4	Bistro (caffi)	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Mae parcio i fathodynau glas ar gael ger Adeilad y George neu Eifionydd	Ceir esgynfa at y fynedfa. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru 	N/A	Toiled hygyrch ar gael	N/A	N/A
8	Trefenai <u>ADEILAD AR GAU</u>	Cyrchir o Ffordd Caergybi SYLWCH: Mae'r fynedfa i'r adeilad ychydig heibio i Gilgwyn	Ceir lle parcio bach o flaen yr adeilad. Fel arall, defnyddiwch y lle y tu cefn i'r gampfa gyferbyn	Mae'r fynedfa ar lefel wastad. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru 	Drysau tynnu/gwthio	Ceir toiledau hygyrch ar y llawr gwaelod	Oes (i'w ddefnyddio, gofynnwch i aelod o'r staff)	Nac oes
5	Adeilad y George	Cyrchir o Ffordd Caergybi	Un bae i fathodynau glas wrth ochr yr adeilad, neu mae parcio ar gael hefyd yn y lle parcio cyferbyn 	Mae'r brif fynedfa yn arwain at risiau, ond mae'r fynedfa ochr ar lefel wastad. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru  SYLWCH: Mae'r lle sy'n arwain at y fynedfa hon ar ychydig o oledf	Drysau tynnu/gwthio	Ceir toiledau hygyrch ar y llawr gwaelod isaf a'r ail lawr	Oes (gwiriwch a yw'n cael ei ddefnyddio)	Oes, ar bwys y lift 

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
4	Padarn <u>ADEILAD AR GAU</u>	<p>Cyrchir o Ffordd Caergybi, yna dilynwrch yr heol i lawr hyd nes y cyrhaeddwrch Adeilad y George, yna trowch i'r dde</p>  <p>Adeilad y George ar y gornel</p>	Ceir lle parcio bach o flaen yr adeilad (dim baeau i fathodynau glas)	<p>Mae'r fynedfa ag esgynfa (â rheiliau llaw). Mae'r drws mynediad wedi'i bweru</p>  <p>SYLWCH: Mae'r fynedfa ar ochr draw'r adeilad â grisiau</p> <p>SYLWCH: Mae'r ffordd heibio Adeilad y George yn serth</p>	Drysau tynnu/gwrthio	Ceir toiledau hygrych ar y llawr gwaelod	N/A	N/A
15	Meirion	Cyrchir o Ffordd Caergybi, yna dilynwrch yr heol i lawr hyd nes y cyrhaeddwrch Adeilad y George, yna trowch i'r dde	Ceir lle parcio bach o flaen yr adeilad (dim baeau parcio i fathodynau glas)	<p>Mae'r brif fynedfa ag esgynfa (â rheiliau llaw). Mae'r drws mynediad wedi'i bweru</p>  <p>SYLWCH: Mae'r ffordd heibio Adeilad y George yn serth</p>	Drysau tynnu/gwrthio	Ceir toiledau hygrych ar y llawr gwaelod	N/A	N/A

MYND O GWMPAS TREBORTH

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
N/A	Gerddi Botaneg Treborth	Mynediad i gerbydau o Ffordd Caergybi SYLWCH: Cymerwch y tro yn union ar ôl Tafarn yr Antelope (os ydych yn teithio o ochr Bangor)	Mae lleoedd parcio ar gael yn union o flaen yr adeilad (dim lleoedd i fathodynau glas)	Mae fynedfa'r adeilad ar lefel wastad. Nid oes motor ar ddrws y fynedfa	Drysau tynnu/gwthio	Toiled ar y llawr gwaelod – dim mynediad i gerbydau olwyn	Ceir lifft platfform yn union wrth ymyl y grisiau at yr Rhizotron	N/A
N/A	Pafiliwn a Chae Chwarae	Mynediad i gerbydau o Ffordd Caergybi SYLWCH: Cymerwch y tro yn union ar ôl Tafarn yr Antelope (os ydych yn teithio o ochr Bangor)	Mae lleoedd parcio ar gael yn union y tu ôl i'r adeilad (dim lleoedd i fathodynau glas)	Mae mynedfa'r adeilad ar lefel wastad. Mae'r drws mynediad wedi'i bweru	Drysau tynnu/gwthio	Llawr gwaelod gan gynnwys cyfleusterau hygrych	N/A	N/A

MYND O GWMPAS M-SParc

Cyf Map	Adeilad	Mynediad i Gerbydau	Parcio	Mynedfa	Coridorau	Cyfleusterau	Lifftiau	Mannau Loches
N/A	<div>M-SParc, Parc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6AG</div> <div></div>	<div>Mynediad i gerbydau o'r gylchfan oddi ar C7 yr A55 (cyffordd Gaerwen)</div> <div>Mae'r Parc wedi'i nodi gan arwyddion clir a mynedfa gerrig addurnol</div>	<div>Mae 10 lle parcio i fathodynau glas ar gael o flaen yr adeilad</div> <div>Mae pwyntiau gwefru trydanol a mannau parcio wedi'u blaenoriaethu i'r rhai sy'n rhannu ceir hefyd ar gael</div>	<div>Mae'r fynedfa ar lefel wastad gyda chyrbau isel</div> <div>Mae gan y prif ddrws synhwyrdd mudiant, ac yn cylchdroi gyda phŵer</div> <div>Mae drws sy'n agor wrth bwyso botwm ar gael wrth ochr yr adeilad</div>	<div>Drysau tynnu/gwthio</div> <div>Sawl ardal yn cael eu rheoli gan system rheoli mynediad SALTO</div>	<div>Toiled hygyrch ar bob llawr</div> <div>SYLWCH: Ceir cawod hygyrch ar y llawr gwaelod ger y Liff Gwasanaeth</div>	<div>Mae dau lifft y gellir eu cyrraedd o'r llawr gwaelod</div> <div>Mae un lifft ger y Dderbynfa, a'r llall wrth y Liff Gwasanaeth ar ochr arall yr adeilad</div>	<div>Oes, mae Pwynt Loches ym mhob twll grisiau sy'n cysylltu â'r Dderbynfa</div> <div></div>